



Wales COVID-19
Evidence Centre

Canolfan Dystiolaeth
COVID-19 Cymru

Adolygiad Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

2021 - 2023



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Rhagair

Mae COVID-19 wedi newid anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl yng Nghymru'n ddramatig a hefyd y ffordd o ddarparu gwasanaethau. Roedd angen i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisi ac arfer yn y maes hwn ymateb yn gyflym i faterion yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio ymchwil i ddeall a rheoli'r pandemig a'i effaith.

Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth ymchwil bob amser wedi bod ar gael yn rhwydd i'r rheini sydd ei hangen, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y GIG, Gofal Cymdeithasol a'r cyhoedd, ac mae'n gallu bod yn heriol sicrhau bod sylfaen dystiolaeth yr ymchwil yn gyfoes ac yn berthnasol i Gymru.

Dyma wnaeth ysgogi sefydlu Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, â'r nod o wella ansawdd a diogelwch wrth gyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy sicrhau bod ymchwil COVID-19 yn amserol ac yn berthnasol i Gymru.

"Mae bod â Chanolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru ar gael i ddod â'r ymchwil at ei gilydd wedi bod yn hollbwysig i Gymru. Mae'r ganolfan wedi darparu sail ar gyfer trafodaethau ynglŷn â thegwch a'n helpu trwy siwrnai anodd...pan rydw i'n meddwl am y pethau y mae'r Ganolfan yn eu gwneud...rydw i'n meddwl ei bod wedi rhagori. Mae'r gwaith y maen nhw wedi'i wneud yn ffantastig."

Syr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru

Mae'n bleser gennym gymryd y **cam nesaf yn ein siwrnai, wrth i ni bontio i 'Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'**, sydd hefyd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Caiff y Ganolfan newydd ei lansio ym mis Mawrth 2023 a bydd yn canolbwyntio ar amrywiaeth o bynciau newydd ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Hoffem **ddiolch i'n partneriaid cydweithredol ymroddgar** am eu cefnogaeth barhaus wrth ddarparu tystiolaeth allweddol i wella iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y **cyfnod newydd hwn o ariannu ymchwil ac rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar waith enghreifftiol Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru.**

Yr Athro Adrian Edwards
Cyfarwyddwr y Ganolfan





Mawrth 2021 Lansio WCEC

Fis Mawrth 2021, lanswyd Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru a gwnaethom ddechrau gweithio gyda'n chwe Phartner Cydweithredol



Hydref/ Gaeaf 2021 Rownd 2 Blaenoriaethu Ymchwil

Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi'r anghenion pwysicaf o ran tystiolaeth COVID-19 i ddarparu sail ar gyfer polisi ac arfer



Mawrth 2022 Symposiwm

Ein hail symposia cyhoeddus, a agorwyd gan Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru: "Blwyddyn o effaith."



Gwanwyn/ Haf 2022 Rownd 3 Blaenoriaethu Ymchwil

Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi'r anghenion pwysicaf o ran tystiolaeth COVID-19 i ddarparu sail ar gyfer polisi ac arfer



Yn gynnar yn 2023

Gweithio i bontio i Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

2021 - 2023

Gwanwyn/ Haf 2021 Rownd 1 Blaenoriaethu Ymchwil

Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi'r anghenion pwysicaf o ran tystiolaeth COVID-19 i ddarparu sail ar gyfer polisi ac arfer



Rhagfyr 2021 Symposium

Ein symposia cyhoeddus cyntaf, agorwyd gan Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: "Effaith y pandemig COVID-19 ar addysg, plant a phobl ifanc".



Ebrill 2022 Rhaglen Ymchwil Sylfaenol

Lansio ein rhaglen waith Ymchwil Sylfaenol, gan weithio i lenwi bylchau mewn tystiolaeth yr oedd adolygiadau a rhanddeiliaid wedi'u nodi



Hydref 2022 Symposiwm

Ein trydydd symposia cyhoeddus, a agorwyd gan Syr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru: "Effaith anghyfartal, adferiad tecach."



44

Grwpiau Rhanddeiliaid

58

Astudiaethau

10

Grynodebau Cyflym o
Dystiolaeth

6

Fapiau Cyflym o Dystiolaeth

35

Adolygiadau Cyflym

4

Gyhoeddiadau hyd yma



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**

Awduron yr Adroddiad

Natalie Joseph-Williams, Adrian Edwards, Alison Cooper, Ruth Lewis,
Micaela Gal, Elizabeth Doe, Rhian Trewartha, Debs Smith, Denitza Williams,
Abubakar Sha'aban, Natasha Hulley, Emma Jones

Mehefin 2023

Ariannwyd Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru gan Lywodraeth Cymru
trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Cynnwys

Cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd	1
Dewis ein cwestiynau ymchwil	3
Beth wnaeth ein cwestiynau ei gwmpasu?	4
Cyfuno Tystiolaeth	5
Ymchwil Sylfaenol	6
Rhoi Gwybodaeth ar Waith	8
Cael effaith: <i>Sbotolau ar ein Partneriaid Cydweithredol</i>	9
Gwersi a Ddysgwyd	13
Beth nesaf? Ein pontio i'r Ganolfan Dystiolaeth	14
Rhanddeiliaid	15
Allbynnau WCEC	16

Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus

Er gwaethaf y galw am ymateb cyflym i nodi anghenion pwysig o ran tystiolaeth, cynnal yr ymchwil a rhannu'r darganfyddiadau â'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, **roedd yn hanfodol cynnwys y cyhoedd.**

Crëwyd ein Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus o 8 – 10 aelod i sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu cynnwys ym mhob un o'n prosesau, o'r dechrau i'r diwedd.

Gweithgareddau allweddol

- **Nodi** blaenoriaethau ymchwil
- **Blaenoriaethu** cwestiynau ymchwil
- Cynghori ar **adolygiadau o dystiolaeth**
- Cynghori ar **ymchwil sylfaenol**
- **Ysgrifennu** adroddiadau a chyhoeddiadau
- Ysgrifennu **crynodebau lleyg**
- **Cyflwyno** mewn sesiynau briffio am dystiolaeth
- Digwyddiadau **ymgysylltu**

Aelodau'r Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus

Mae ein tîm ymroddgar o aelodau'r Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus sydd wedi gwneud cyfraniadau **neilltuol** at ein gwaith yn cynnwys:

- Debs Smith
- Nigel Pearson
- Sally Anstey
- Bob Hall
- Rashmi Kumar
- Nathan Davies
- Chris Pavlakis
- Alexandra Strong

"Rydwn i wedi mwynhau gweithio gyda'r WCEC yn fawr iawn. Yr uchafbwynt oedd y penwythnos yn Wrecsam...yn helpu cydweithwyr i redeg stondin mewn man cyfarfod cyhoeddus. Roedd y cydgyhyrchu'n dda o ran beth oedd i'w weld ar y stondin a chefais fy nhrin fel aelod cyfartal o'r tîm."

Debs Smith, Aelod o'r Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus

Gwaith y Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus

Rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2023, mae ein Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus wedi cefnogi neu gynhyrchu'r canlynol:

24



Adolygiadau o
Dystiolaeth

17



Adroddiadau
Terfynol

34



Grynodebau
Lleyg

6



Briffiau ar
Dystiolaeth

28



Gyhoeddiadau



24



Ddigwyddiadau
Ymgysylltu

"Mae'r Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus wedi bod yn hanfodol i'r gwaith rydyn ni wedi'i wneud. Maen nhw wedi gweithio'n ddiflino i gefnogi adolygiadau cyflym sydd wedi gwneud gwahaniaeth i bolisi ac arfer yng Nghymru"

Natalie Joseph-Williams Y tîm craidd



Ar i lawr:
Debs Smith, Nigel Pearson, Sally Anstey, Bob Hall, Rashmi Kumar

Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Gweithio gyda'r rheini yr effeithiwyd arnynt fwyaf

Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar bawb mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, ond rydym yn gwybod ei fod wedi effeithio ar rai grwpiau a chymunedau yn fwy nag eraill – weithiau gwaethygydd anghydraddoldebau a oedd eisoes yn bodoli.

"O ddydd i ddydd mae'n rhaid i ni ddal i fyny, dal ati a rheoli ein cyflyrau, ond dydy'r GIG ddim yn dal i fyny ar yr un cyflymder"

"Doedd pethau ddim yn wych cyn COVID...mae angen i ni edrych ar y pethau a oedd yn bodoli y mae'r pandemig wedi'u gwaethygu"

Gweithdai gyda grwpiau y gwnaeth y pandemig effeithio arnynt fwyaf

Gwnaethom sefydlu pedwar gweithdy i gydweithio â'r grwpiau hyn i ddeall eu profiadau penodol a'u blaenoriaethau ymchwil. Roedd gweithdai naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb, ac roedd iaith arwyddion/ cefnogaeth palandeipydd ar gael (lle bo angen).


"Pam fod yr holl wybodaeth ar-lein? Mae yna lawer o bobl sydd heb gyfrifiaduron ac maen nhw'n methu gwybodaeth hanfodol"

Ein Partneriaid Gweithdai Cyhoeddus

- **Grwpiau Plant a Phobl Ifanc:** Comisiynydd Plant Cymru, Grŵp ALPHA DECIPHer, Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc
- **Anabledd Cymru**
- **Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid Cymru**
- **Cymdeithas Tai Taf**

Cymerodd 55 o gyfranogion ran ar draws y pedwar gweithdy (Ebrill-Mai 2023).

Beth sydd bwysicaf i'r cyhoedd?



Y 5 Maes Blaenoriaeth Ymchwil Uchaf

- 1 **Gwasanaethau Iechyd a Gofal**
- 2 **Effaith gymdeithasol**
- 3 **Effaith ar Iechyd**
- 4 **Anghydraddoldebau**
- 5 **Addysg**

Ymgynghori â'r Cyhoedd Ehangach

Gwnaethom hefyd ymgynghori â'r grwpiau a ganlyn i helpu i nodi blaenoriaethau ymchwil cyhoeddus:
- Digwyddiad Fforwm Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (Mai 2021)
- Grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth ar gyfer Ymchwil i Ofal Sylfaenol a Brys (Mai 2021)

Helpu i ddarparu sail ar gyfer ein rhaglen waith

Mae'r cyhoedd wedi darparu sail yn uniongyrchol ar gyfer ein rhaglen waith trwy awgrymu cwestiynau i ni eu mabwysiadu.

96 o gwestiynau a gynigwyd gan y cyhoedd
20 wedi'u cynnwys yn ein rhaglen waith

Cafodd aelodau'r Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus hefyd eu cynnwys yn y broses blaenoriaethu cwestiynau ymchwil - neu ddewis ein cwestiynau (gwelwch dudalen 3)

Dewis ein Cwestiynau Ymchwil

Roedd ein nod yn glir – gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru i **nodi'r blaenoriaethau ymchwil COVID-19 pwysicaf a allai ddarparu sail ar gyfer penderfynu ar bolisi ac arfer.**

Roedd angen i ni fod yn adweithiol i sefyllfa pandemig a oedd yn esblygu a defnyddio dulliau pragmatig o drin ymchwil er mwyn **darparu tystiolaeth yn gyflym** i'r rheini a oedd ei hangen.

Gwnaethom wahodd **52 o grwpiau rhanddeiliaid** ar draws meysydd polisi, gofal iechyd, gofal cymdeithasol, y cyhoedd, y trydydd sector a'r byd academiaidd i gynnig cwestiynau â blaenoriaeth yn ystod tair rownd o flaenoriaethu ymchwil - Gwanwyn/ Haf 2021, Hydref/ Gaeaf 2021, a Gwanwyn/ Haf 2022.



44

o grwpiau rhanddeiliaid wedi cymryd rhan ar draws tair rownd




212

o gwestiynau â blaenoriaeth wedi'u cynnig ar draws tair rownd

"Cwestiynau da, wedi'u hateb yn gyflym"

Aseswyd cwestiynau yn erbyn y **meini prawf a ganlyn i'w cynnwys yn ein rhaglen waith:**

- **perthnasedd** i gyd-destun cyfredol COVID-19
- **pwysigrwydd** y bwlch mewn tystiolaeth
- **potensial** ar gyfer **effaith neu fuddion**
- **y tebygolrwydd y caiff ei ddefnyddio** wrth benderfynu ar bolisi neu arfer
- **a allem ei gwblhau** o fewn y **ffrâm amser** ofynnol?



Beth wnaeth ein cwestiynau ei gwmpasu?

Awgrymodd ein rhanddeiliaid gwestiynau a oedd yn cwmpasu amrywiaeth eang o themâu. Cafodd y pandemig effaith ar y cyhoedd mewn llawer o wahanol ffyrdd – o amharu ar y gofal iechyd a ddarparwyd, methu addysg, mesurau atal a rheoli haint a roddwyd ar waith i leihau lledaeniad y feirws, covid hir,

yr effaith ar lesiant ac iechyd meddwl a gwaethygu anghydraddoldebau.


Mae ein rhaglen waith yn adlewyrchu hyn – gwnaeth y cwestiynau a gynhwyswyd **gwmpasu amrywiaeth eang o 12 thema** (gwelwch isod).

Themâu y gwnaeth ein rhaglen waith eu cwmpasu

- 1 Darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- 2 Atal a rheoli haint
- 3 Plant a phobl ifanc
- 4 Anghydraddoldebau
- 5 Brechu
- 6 Llesiant ac iechyd meddwl
- 7 Covid hir
- 8 Rheoli a thrin COVID-19
- 9 Effaith ariannol ac economaidd
- 10 Gofal cymdeithasol
- 11 Effeithiau cymdeithasol
- 12 Amgylchedd

Pum Niwed y Pandemig COVID-19, Llywodraeth Cymru

Yn 2021, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn amlinellu '**Pum Niwed y Pandemig COVID-19**'. Roedd y rhain yn adlewyrchu'r niweidiau uniongyrchol ac anuniongyrchol pwysicaf i'w lliniaru a'u rheoli. **Gwnaeth ein rhaglen waith geisio atebion i gwestiynau a oedd yn cwmpasu pob un o'r pum niwed.** Roedd y niwed roedd y mwyafrif o'r cwestiynau'n ei gwmpasu'n ymwneud â niweidiau anuniongyrchol oherwydd cynnydd sydyn yn y pwysau ar y system iechyd a gofal cymdeithasol a newidiadau i weithgarwch gofal iechyd (Niwed 2).



Niwed 1

Niwed uniongyrchol yn sgil heintiau SARS-CoV2

Niwed 2

Niweidiau anuniongyrchol oherwydd **cynnydd sydyn yn y pwysau** ar y system iechyd/ gofal cymdeithasol a **newidiadau** i weithgarwch gofal iechyd

Niwed 3

Niwed oherwydd **mesurau diogelu ar sail y boblogaeth e.e. addysgol, seicolegol**

Niwed 4

Niweidiau economaidd e.e. diweithdra

Niwed 5

Niweidiau oherwydd y ffordd y mae COVID-19 wedi gwaethygu **anghydraddoldebau** a oedd eisoes yn bodoli yn y gymdeithas neu wedi cyflwyno rhai newydd

Mae'r adroddiad ar Bum Niwed y Pandemig COVID-19 ar gael yma:
[Y Grŵp Cyngor Technegol: 5 nam syn codi o COVID-19 | LLYW.CYMRU](#)

Cyfuno Tystiolaeth

Edrych ar lenyddiaeth a oedd eisoes yn bodoli

Roedd Rhaglen Waith Cyfuno Tystiolaeth yn canolbwyntio ar adolygiad cyflym o ymchwil a oedd eisoes yn bodoli i ddarparu atebion i'r cwestiynau roedd ein grwpiau rhanddeiliaid wedi'u blaenoriaethu. Datblygwyd proses adolygu cam wrth gam, a allai roi sylw i geisiadau brys o fewn diwrnodau, wythnosau neu fisoedd, yn ôl y galw.

Aeth Partner Cydweithredol penodol ati i gynnal pob adolygiad (gwelwch dudalen 9). Defnyddiwyd gwaith ymgysylltu cynnar a pharhaus â rhanddeiliaid i ganolbwyntio'r cwestiwn a sicrhau bod yr adolygiad yn briodol i anghenion y rhanddeiliaid. Roedd yna gyfres o gyfarfodydd rhanddeiliaid i gefnogi hyn.

Allbynnau adolygiadau allweddol

Roedd y cyfnod cyntaf (1-2 wythnos) yn cynnwys cyfarfod rhagarweiniol rhanddeiliaid a chwiliad rhagarweiniol o adnoddau COVID-19 allweddol am adolygiadau a oedd eisoes yn bodoli.

Yn ystod y cyfnod hwn, eglurwyd anghenion y rhanddeiliaid, gwiriwyd i weld a oedd y cwestiwn ymchwil wedi cael sylw rhywle arall, darparwyd sail ar gyfer dulliau a dyluniad y cyfnod nesaf, a darparwyd darganfyddiadau interim cyfyngedig i'r rhanddeiliaid (wedi'u cyflwyno mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid interim).

Addaswyd y cyfnod hwn i roi sylw i gwestiynau brys ac i gynhyrchu cynnyrch terfynol y Crynodeb Cyflym o Dystiolaeth (RES) – llyfryddiaeth anodiadol gyda darganfyddiadau allweddol.

Adolygiad Cyflym (RR) oedd y cyfnod nesaf – adolygiad mwy trylwyr a chynhwysfawr (1-2 fis).

Ar gyfer adolygiadau eang neu gymhleth, cynhyrwyd Map Cyflym o Dystiolaeth (REM) interim weithiau i helpu i roi ffocws i'r adolygiad cyflym dilynol. Gofynnwyd am hyn hefyd fel cynnyrch terfynol.

Allbynnau cyfuno tystiolaeth

Rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2023, mae ein Partneriaid Cydweithredol wedi cynhyrchu'r allbynnau cyfuno tystiolaeth a ganlyn.



10

Gynodebau
Cyflym o
Dystiolaeth



6

Fapiau Cyflym
o Dystiolaeth



35

Adolygiadau
Cyflym

Rhennir pob un o'n hadolygiadau trwy ein llyfrgell adroddiadau ar-lein:

<https://ymchwiliachydgofalcymru.org/llyfrgell-adroddiadau-canolfan-tystiolaeth-cofid-19-cymru>

Mae rhai adroddiadau wedi'u hysgrifennu i'w cyhoeddi ar weinydd rhagargraffu neu mewn cyfnodolion wedi'u hadolygu gan gymheiriaid (gellir gweld rhestr lawr ar dudalen 16).

Darparodd ein hadolygiadau cyflym dystiolaeth ddilys a dibynadwy i rhanddeiliaid i geisio datrys problemau â gwneud penderfyniadau brys mewn modd a oedd yn defnyddio adnoddau'n effeithlon. Eu nod oedd mynd ati'n eang i ddod o hyd i dystiolaeth ynghylch cwestiwn penodol a'i chyfuno, gan ddefnyddio gweithdrefnau trefnus, tryloyw a dyblygadwy i sicrhau cyn lleied o anghywirdebau a thuedd â phosibl

Crynodebau Cyflym o Dystiolaeth (RES)

Roedd y rhain yn darparu crynodeb cyflym o dystiolaeth ymchwil a oedd eisoes yn bodoli ac a oedd yn ateb cwestiwn penodol. Amserlen: 1-2 wythnos.

Mapiau Cyflym o Dystiolaeth (REM)

Roedd y rhain yn darparu rhestr o'r dystiolaeth ymchwil a oedd ar gael. Roeddent yn addas ar gyfer cwestiynau ymchwil eang neu gymhleth a gellid eu defnyddio i ddewis ffocws ar gyfer adolygiad cyflym manylach neu i nodi bylchau yn y dystiolaeth ymchwil. Amserlen: 1-2 fis.

Adolygiadau Cyflym (RR)

Roedd y rhain yn darparu gwerthusiad trylwyr a chynhwysfawr o'r ymchwil a oedd yn bodoli o fewn ffrâm amser fer. Roeddent wedi'u seilio ar ddulliau adolygu systematig, ond cafodd rhannau o'r broses eu symleiddio neu eu hepgor. Amserlen: 1-2 fis

Ymchwil Sylfaenol

Cynnal ymchwil newydd

Mae adolygu tystiolaeth ymchwil wedi darparu atebion i lawer o gwestiynau, ond mae adolygiadau hefyd wedi dwyn sylw at fylchau allweddol mewn tystiolaeth y gallai ymchwilio pellach fod o fudd iddynt.

I fynd i'r afael â hyn, gwnaethom sefydlu'r **Rhaglen Waith Ymchwil Sylfaenol yn Haf 2022** i lenwi'r bylchau mewn gwytodaeth y dygwyd sylw atynt trwy ein rhaglen waith Cyfuno Tystiolaeth, a blaenoriaethau allweddol eraill yr oedd ymchwilwyr COVID-19 yng Nghymru wedi'u nodi.

Roedd gan y rhaglen waith ymchwil sylfaenol dair brif ffrwd:

- 'Mewnol' – a gynhaliwyd gan ein hymchwilwyr
- Gwaith 'Partner Cydweithredol'
- Prosiectau ymchwil wedi'u hariannu ar raddfa fach

Ymchwil 'fewnol'

Daeth nifer o bynciau trwy ein proses blaenoriaethu ymchwil y gwnaethom eu harchwilio 'yn fewnol'.

Prosiectau ymchwil a ariannwyd

Roedd gennym gronfa ymchwil fach a oedd ar gael ar gyfer prosiectau allanol ar raddfa fach. Gwahodwyd ymchwilyr i gyflwyno'u cynigion ar gyfer prosiectau tymor byr, a aseswyd yn erbyn ein meini prawf cynnwys, a adolygwyd gan gymheiriaid ac y bu panel cyllid grant yn eu hystyried (roedd y tîm adolygu a'r panel cyllid yn cynnwys aelod o'r cyhoedd).

Monitorau carbon diocsid i wella'r awyru mewn lleoliadau addysg

Nod yr adolygiad hwn oedd edrych ar brofiadau o ddefnyddio'r monitorau – roedd y mwyafrif yn teimlo'u bod yn ddefnyddiol ac yn rhoi hyder bod ystafelloedd dosbarth wedi'u hawyru. Mae'r adroddiad llawn yma:

<https://ymchwilielchydagofalcymru.org/carbon-dioxide-monitors-ventilation>

Digwyddiadau diogelwch a adroddir gan gleifion

Roeddem yn cefnogi aelodau o Ganolfan PRIME Cymru i fireinio adolygiad o ddigwyddiadau diogelwch a adroddir gan gleifion er mwyn cael ciplun o'r digwyddiadau hyn ym maes gofal iechyd.

Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad ym mis Mehefin 2023.

Iechyd meddwl ymhlith gweithwyr allweddol

Gwnaeth ein hadolygiadau o dystiolaeth ddangos bod hyn yn fater sylweddol. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynnig am gyllid ymchwil i archwilio hyn yn fanylach.

Sail COVID-19 o ran yr ymennydd a choesyn yr ymennydd – BBB-COV

Pen Ymchwilyr:

Dr Helen Davies (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) a'r Athro Neil Harrison (Canolfan Delweddau Ymchwil yr Ymennydd Prifysgol Caerdydd)



Mae covid hir yn achosi amrywiaeth eang o symptomau sy'n analluogi nad yw profion meddygol safonol yn eu

hesbonio. Trwy'r dystiolaeth, daethpwyd i'r casgliad y gallai COVID-19 effeithio ar yr ymennydd a'r nerfau, ond nid yw sganiau a ddefnyddir yn nodweddiadol yn yr ysbyty (e.e. sganiau CT neu MRI confensiynol), yn eu dangos neu eu nodweddu'n glir. Felly, perfformiodd yr astudiaeth hon sganiau MRI arbenigol o'r ymennydd a choesyn yr ymennydd mewn pobl â covid hir a grŵp cymharu o bobl iach i greu delweddau manwl wrth edrych ar weithgarwch yr ymennydd ac ardaloedd oedd wedi'u difrodi. Defnyddir canlyniadau'r astudiaeth i helpu â gwneud diagnosis o wahanol fathau o covid hir i wella triniaeth ac, yn y pen draw, deilliannau i'r rheini sy'n dioddef. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad ym mis [Gorffennaf 2023](#).

Effaith y pandemig ar Ddysgwyr Cymraeg



Pen Ymchwilyr:

Yr Athro Siân Lloyd (Prifysgol Aberystwyth) a'r Athro Enlli Thomas (Prifysgol Bangor)

Roedd gallu defnyddio'r Gymraeg yn ystod y pandemig yn un agwedd a oedd yn heriol i rai teuluoedd ac roedd peidio â bod o gwmpas pobl a oedd yn siarad Cymraeg yn ystod y pandemig yn dipyn o broblem i ddisgyblion o aelwydydd Saesneg eu hiath a oedd yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bu'r astudiaeth ansodol hon yn archwilio profiadau'r dysgwyr hyn a'u teuluoedd, gan ganolbwyntio ar y rheini a bontiodd i'r ysgol uwchradd yn 2021. Bydd y darganfyddiadau'n ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth ynghylch strategaethau i gefnogi'r cohort hwn a hefyd argymhellion ehangach ynglŷn â'r gefnogaeth sy'n ofynnol wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad ym mis [Gorffennaf 2023](#).

Ymchwil Sylfaenol

Barn y Cyhoedd yn ystod y Pandemig Coronafeirws - PVCCOVID

Ar 4ydd Mawrth 2022, cyhoeddodd Cymru ei chynllun Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel: Covid-19 – Cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig, gan fanylu ar gynllun ar gyfer rheoli'r feirws a diogelwch pobl yn y tymor hir. Wrth i Gymru, fel llawer o wledydd, edrych i gyfeiriad cyfnod newydd lle y byddai canllawiau iechyd cyhoeddus a chanfyddiadau ac ysgogiadau pobl eu hunain, yn hytrach na chyfraith, yn llywio'u hymatebion i'r coronafeirws, daw'r cwestiwn ynglŷn â sut y bydd pobl yn ymdwyn o ran COVID-19 yn fwy hanfodol fyth. Bu'r prosiect hwn yn archwilio'r newidiadau dros amser mewn ymddygiadau iechyd COVID-19 pobl, gan gynnwys

gwneud profion, hunanynysu, gwisgo masgiau wyneb a chymysgu cymdeithasol. Y gobaith yw y bydd yr ymchwil hon yn helpu i ddeall a yw pobl wedi dal at yr ymddygiadau hyn a pham, a hefyd yn darparu mewnwelediad i anghydraddoldebau.

Disgwyli'r canlyniadau terfynol ym mis Gorffennaf 2023.




Ymddygiadau iechyd cysylltiedig â COVID-19 a haint y system anadlu cyffredin – CARI Cymru

Mae clefydau sy'n debyg i'r fflui, pesychiadau ac anwydau yn gosod cryn bwysau ar unigolion, systemau gofal iechyd a'r gymdeithas. Mae COVID-19 wedi dwyn sylw at bwysigrwydd deall yr hyn y mae pobl yn gallu ei wneud i leihau lleadaeniad heintiau ac i reoli'r cyflyrau hyn. Nod yr astudiaeth hon oedd deall beth y mae pobl yn y gymuned yn ei feddwl, ei deimlo a'i wneud ynglŷn ag atal COVID-19 a heintiau'r system anadlu cyffredin eraill pan fo ganddynt symptomau a phan nad oes ganddynt symptomau. Bu hefyd yn edrych ar ba feirysau a bacteria y gellir eu nodi mewn pobl sydd â symptomau a

sydd heb symptomau, a sut y mae hyn yn gysylltiedig â sut y maent yn teimlo ac yn ymdwyn. Mae'r ymchwilwyr yn gobeithio darparu sail ar gyfer ymyriadau i hybu atal haint a hunanreoli ymddygiadau. Disgwyli'r canlyniadau interim ym mis Gorffennaf 2023.

Pen Ymchwilwyr ar gyfer PVCCOVID a CARI Cymru:

Dr Kim Dienes a Dr Simon Williams (Prifysgol Abertawe)



Gwella nifer y bobl sy'n manteisio ar frechlyn COVID-19 a thegwch yng Nghymru

Tim Gwyddor Data Poblogaeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru

Er bod rhaglen frechu COVID-19 wedi bod yn un o'r rhaglenni brechu mwyaf llwyddiannus yng Nghymru, mae'n eithaf posibl bod data brechu a gesglir fel mater o drefn yn cuddio anghydraddoldebau. Nod yr astudiaeth cysylltiedd data'r boblogaeth hon oedd nodi a nodweddau'r rheini sydd heb eu brechu'n ddigonol (naill ai heb eu brechu o gwbl neu heb gwblhau eu brechiadau).

Disgwyli'r canlyniadau terfynol ym mis Mehefin 2023.



Effaith COVID-19 ar achosion o gyflyrau hirdymor a gofnodwyd

Tim Gwyddor Data Poblogaeth

Nod yr astudiaeth hon oedd archwilio effeithiau'r pandemig COVID-19 ar 17 o gyflyrau iechyd hirdymor gan ddefnyddio cysylltiedd data'r boblogaeth mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Roedd cyfraddau'r achosion a gofnodwyd o 2020-2021 yn is na'r disgwyli ar draws pob cyflwr heblaw am ddiabetes Math II – yn syml, mae'n bosibl bod gan bractis meddygon teulu â 10,000 o gleifion dros 400 o gleifion â chyflyrau hirdymor sydd heb gael diagnosis. BJGP.

<https://bjgp.org/content/73/730/e332>



Effeithiolrwydd triniaethau gwrthfeiryl yn y byd go iawn ymhlith cleifion mewn risg uwch yng Nghymru

Tim Gwyddor Data Poblogaeth

Nod yr astudiaeth cohort ôl-weithredol hon oedd cymharu effeithiolrwydd molnupiravir, nirmatrelvir-ritonavir a sotrovimab â dim triniaeth wrth atal cleifion risg uchaf â haint SARS-CoV-2 yn y gymuned rhag gorfod mynd i mewn i'r ysbyty neu rhag marw.

Journal of Infection:

<https://www.journalofinfection.com/action/showPdf?pii=S0163-4453%2823%2900082-8>



Rhoi Gwybodaeth ar Waith

Yn ogystal â chynnal adolygiadau o dystiolaeth ac astudiaethau newydd, roeddem eisiau gwneud yn siŵr bod y canlyniadau ar gael yn **gyflym** ac yn **rhwydd** i'r rheini a oedd eu hangen.

Roedd ein rhaglen waith ar gyfer rhoi gwybodaeth ar waith yn canolbwyntio ar hyn – gwneud yn siŵr bod allbynnau'n cael eu defnyddio i **ddarparu sail ar gyfer penderfynu ar bolisi ac arfer yng Nghymru**.

"Mae a wnelo rhoi gwybodaeth ar waith â chysylltu ac annog pobl i rannu gwybodaeth a defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu sail ar gyfer eu penderfyniadau".

Gweithgareddau Rhoi Gwybodaeth ar Waith

Adroddiadau a chrynodebau lleyg

Mae pob un o'r astudiaethau wedi'u cyhoeddi fel adroddiadau yn ein llyfrgell adroddiadau ar-lein, neu mewn gweinydd rhagarraffu ar-lein (e.e. medRxiv). Mae adroddiadau'n cynnwys yr **allbnw technegol llawn, crynodeb o'r prif bwyntiau** yn manylu ar y darganfyddiadau allweddol a **chrynodeb lleyg** (wedi'i ysgrifennu

gan un o'n partneriaid cyhoeddus). Pan roedd yn ofynnol neu'n ddefnyddiol i'r rhanddeiliaid, cafodd ffeithlun ei gynhyrchu hefyd i gyd-fynd â'r adroddiad.

Sesiynau Briffio Llywodraeth Cymru

Roedd sesiynau briffio bob pythefnos wedi'u hamserlennu gyda rhanddeiliaid allweddol Llywodraeth Cymru, i fynd ati i ledaenu darganfyddiadau'n gyflym. Roedd y rhain yn darparu fforwm gwerthfawr ar gyfer trafodaeth a dealltwriaeth ddyfnach o ddarganfyddiadau ymchwil ymhlith llunwyr polisi a chynghorwyr a oedd a wnelo â COVID-19.

"Roedd sesiynau briffio a symposia tystiolaeth yn ddigwyddiadau mewnweledol iawn a ddarparodd gyfleoedd defnyddiol i rannu pethau oedd wedi'u dysgu a datblygu cysylltiadau ar gyfer cydweithredu yn dyfodol"

Cylchlythrau

Cynhyrnodd WCEC gylchlythyr chwe-misol a oedd yn cynnwys gwybodaeth am yr holl gynnydd cysylltiedig:

- [Rhifyn un - Tachwedd 2021](#)
- [Rhifyn dau - Mawrth 2022](#)
- [Rhifyn tri- Medi 2022](#)

Symposia Cyhoeddus

Lletyodd y WCEC dri symposiwm cyhoeddus, pob un â ffocws gwahanol, yn adlewyrchu blaenoriaethau pandemig a oedd yn esblygu yng Nghymru.

Rhagfyr 202

["Effaith y pandemig COVID-19 ar addysg, plant a phobl ifanc"](#)

Wedi'i agor gan Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mawrth 2022

["Blwyddyn o effaith"](#)

Wedi'i agor gan y Gwir Anrh Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru

Medi 2022

["Effaith anghyfartal, adferiad tecach"](#)

Wedi'i agor gan Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru

Rhai ffyrdd y mae ein tystiolaeth wedi'i defnyddio

"Mae recriwtio a chadw gweithwyr y GIG yn ganolog i bopeth sy'n digwydd yn y GIG a'r Colegau Brenhinol meddygol. Mae gallu cyflwyno data manwl gywir yn ein galluogi i ddangos llunwyr polisi bod ein galwadau a'n dulliau o weithredu wedi'u seilio ar dystiolaeth. Mae hyn yn hynod werthfawr."

"Gwnaeth y dystiolaeth gynorthwyo â phenderfyniadau pwysig ynglŷn â pholisi a deddfwriaeth o ran mesurau deilliannau, cyfyngiadau cymdeithasol, mesurau diogelwch ysgolion, lleihau anghydraddoldebau yn y boblogaeth"

"Gwnaethon ni ddefnyddio'r crynodeb o dystiolaeth fel rhan o becyn gwybodaeth mewn cyfarfodydd â phob un o'r saith bwrdd gweithlu partneriaeth rhanbarthol yng Nghymru."

"Fe helpodd y crynodeb cyflym o dystiolaeth i gefnogi cynlluniau gweithredu'r Pwyllgor Brechu Teg"

"...wedi'i ddefnyddio i gynghori'r Gweinidogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gymraeg ac Addysg ynglŷn â defnyddio generaduron osôn mewn ysgolion."

Cael effaith – Sbotolau ar ein Partneriaid Cydweithredol

Ein Partneriaid Cydweithredol yw asgwrn cefn y WCEC. Mae'r tîm craidd wedi cydweithio â chwech o Bartneriaid Cydweithredol ledled Cymru i ateb y cwestiynau ymchwil COVID-19 oedd â blaenoriaeth, ac i gyflawni allbynnau sydd wedi darparu sail ar gyfer penderfyniadau ar bolisi ac arfer.

Ein Partneriaid Cydweithredol

- [Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor](#)
- [Technoleg Iechyd Cymru](#)
- [Tîm Gwyddor Data Poblogaeth \(Prifysgol Abertawe\)](#)
- [Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)
- [Uned Arbenigol ar gyfer Tystiolaeth Adolygu](#)
- [Canolfan Cymru ar gyfer Gofal Sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth](#)

Sgiliau

Mae ein Partneriaid Cydweithredol yn arbenigo mewn adolygu, economeg iechyd a dadansoddi setiau data mawr.

Mae gwaith pob Partner Cydweithredol dan y 'sbotolau' dros yr ychydig dudalennau nesaf lle rydym yn rhannu gwybodaeth am bob tîm, eu harbenigedd penodol ac astudiaethau achos o waith y maent wedi'i wneud ar draws ein rhaglen waith cyfuno tystiolaeth ac ymchwil sylfaenol

Allbynnau

Mae'r holl allbynnau ymchwil y mae'r WCEC wedi'u cynhyrchu, ynghyd â'n Partneriaid Cydweithredol, i'w gweld yn yr adran gwybodaeth ychwanegol ar dudalen 16.

"Rydwn i'n wirioneddol meddwl ei bod wedi bod yn bleser gweithio gyda'r WCEC...mae'r ffaith bod diwydrwydd ac ymrwymiad y tîm wedi'i gyfuno ag amynedd a hwyliau da yn dweud cyfrolau am y tîm a'i aelodau."

Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor

Mae gan Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor (BIHMR), sy'n cynnwys grŵp y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME), ymchwilwyr sy'n arbenigo mewn economeg iechyd cyhoeddus ac atal, ac mae'n cydweithredu ag Economeg Iechyd a Gofal Cymru.

Meysydd Arbenigo

- Economeg iechyd cyhoeddus ac atal
- Ffarmacoeconomeg
- Gwerthusiadau economeg iechyd, gan gynnwys dadansoddi cost-effeithiolrwydd (CEA), dadansoddi defnyddioldeb costau (CUA), dadansoddi buddion costau (CBA) a dadansoddi Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi (SROI)
- Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs)
- Methodoleg adolygu systematig (SR)

Cefnogi pobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â cham-drin domestig

Rydym yn gwybod bod gweld chamdriniaeth a thrais domestig yn gallu effeithio'n negyddol ar blant a phobl ifanc o ran eu datblygiad seicolegol, emosiynol a chymdeithasol. Roedd ein rhanddeiliaid cyhoeddus o'r farn bod hyn yn fater pwysig, a gwnaethant gynnig cwestiwn ar y pwnc hwn ar gyfer ein rhaglen waith.

Cynhyrchodd tîm BIHMR adolygiad cyflym yn gofyn: **Pa mor effeithiol a chost-effeithiol ydy ymyriadau i leihau niwed i blant a phobl ifanc sydd wedi dod i gysylltiad â chamdriniaeth neu drais domestig?**



Mae gan yr adolygiad hwn y potensial i lywio polisi ynglŷn â sut y gellir helpu plant a phobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â chamdriniaeth a thrais domestig i ddelio â'u trawma a dod yn oedolion mwy cydnerth.

Gellir gweld yr adroddiad llawn yma: <https://www.medrxiv.org/content/medrxiv/early/2023/05/11/2023.05.10.23289781.full.pdf>



Technoleg Iechyd Cymru

Corff cenedlaethol ydy Technoleg Iechyd Cymru (HTW), sy'n ymgymryd ag arfarniadau technolegol o dechnolegau iechyd a gofal cymdeithasol nad ydynt yn cynnwys meddyginiaeth a modelau gofal a chefnoagaeth. Mae'n cynnwys grŵp amlddisgyblaeth o ymchwilwyr, economegwyr iechyd a'r rheini sy'n arbenigo mewn gwyrbodaeth.

Meysydd Arbenigo

- Asesu Technoleg Iechyd
- Adolygiadau tystiolaeth systematig a chyflym o d dulliau meintiol neu ansodol
- Gwerthuso economaidd
- Gwyddor gwyrbodaeth ac adalw gwyrbodaeth

Darparu sail ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â masgiau wyneb

Fis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd HTW grynodedd cyflym a ddarparodd ateb seiliedig ar dystiolaeth i'r cwestiwn a ganlyn: **Pa mor effeithiol ydy gorchuddion wyneb a ddefnyddir yn y gymuned i leihau cyfraddau trosglwyddo a haint COVID-19 a pha ganllawiau sy'n bodoli ar eu defnydd?**

Bu tîm HTW o ymchwilwyr yn archwilio'r dystiolaeth a oedd ar gael ar y pryd am effeithiolrwydd gorchuddion wyneb, gan gynnwys adolygiadau systematig, meta-ddadansoddiadau ac astudiaethau sylfaenol a

oedd yn ymchwilio i ddiogelu rhag y fflui, hap-dreialon ac astudiaethau arsylwadol.

Daeth y crynodeb i'r casgliad mai cyfyngedig yw'r sylfaen dystiolaeth, ond mae yna astudiaethau sy'n awgrymu bod gwisgo masgiau'n cynnig budd cymharol fach. Mae'n ymddangos bod masgiau meddygol yn fwy effeithiol na masgiau ffabrig. Daeth i'r casgliad bod angen treialon o ansawdd uchel i asesu pryd y mae gwisgo gorchudd wyneb yn y gymuned yn fwyaf tebygol o fod yn amddiffynol.



Arweiniodd yr astudiaeth at ensyniad mewn polisi y gallai masgiau chwarae rhan mewn atal trosglwyddiad SARS-CoV-2. Cynigiodd y gwaith y wybodaeth briodol i Lywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â pharhau i ddefnyddio masgiau.

Gellir gweld yr adroddiad llawn yma:

<https://ymchwilielchydagofalcymru.org/gorchuddion-wyneb-i-leihau-trosglwyddiad-sars-cov-2>



**Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales**

Tîm Gwyddor Data Poblogaeth - Prifysgol Abertawe

Mae'r tîm Gwyddor Data Poblogaeth ym Mhrifysgol Abertawe yn cynnal ymchwil o'r radd flaenaf gan ddefnyddio'r Banc Data Diogel ar gyfer Cysylltiadau Gwybodaeth Ddiennw (SAIL) ac ym maes mwyfwy pwysig gwyddor data poblogaeth – gwyddor data am bobl.

Meysydd Arbenigo

- Astudiaethau ar raddfa fawr
- Cyfuno tystiolaeth gymhleth
- Gwerthuso polisi
- Ymchwil fethodolegol
- Curaduro a rheoli data ar raddfa'r boblogaeth a'u dadansoddi
- Asesu technoleg iechyd

Effeithiolrwydd meddyginiaethau gwrthfeiriol i drin COVID-19 yn y byd go iawn

Roedd datblygu cyfryngau therapiwtig newydd i drin haint SARS-CoV-2 yn flaenoriaeth yn ystod y pandemig COVID-19.

Fodd bynnag, roedd yna ansicrwydd sylweddol o ran gwirredu buddion y triniaethau hyn, yr arsylwyd arnynt mewn treial clinigol, yn y byd go iawn mewn poblogaethau sydd wedi'u brechu'n helaeth a lle bo amrywiolion mwy newydd yn trechu'r rheini a oedd wedi arwain at haint ymhlith y bobl fu'n cymryd rhan yn y treial.

Defnyddiodd y Tîm Gwyddor Data Poblogaeth y Banc Data SAIL i archwilio hyn: **Effeithiolrwydd molnupiravir, nirmatrelvir-ritonavir a sotrovimab yn y byd go iawn wrth atal cleifion risg uchaf â COVID-19 yng Nghymru rhag gorfod mynd i mewn i'r ysbyty: Astudiaeth cohort ôl-weithredol.**



Ymhlith cleifion a oedd yn oedolion â'r risg uwch yn y gymuned â COVID-19, roedd y rheini a dderbyniodd driniaeth â molnupiravir, nirmatrelvir-ritonavir, neu sotrovimab mewn risg is o orfod mynd i mewn i'r ysbyty neu o farw na'r rheini nad oeddnt yn derbyn triniaeth.

Gellir gweld yr adroddiad llawn yma:

[https://www.journalofinfection.com/article/S0163-4453\(23\)00082-8/fulltext](https://www.journalofinfection.com/article/S0163-4453(23)00082-8/fulltext)

**Population Data Science
at Swansea University**



Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru

Sefydlwyd Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2014 i helpu i sicrhau bod tystiolaeth ymchwil o ansawdd da wrth galon penderfyniadau ynglŷn ag iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r tîm yn cynnwys adolygwyr systematig ac arbenigwyr gwybodaeth profiadol.

Meysydd Arbenigo

- Ehangder llawn yr agenda iechyd cyhoeddus
- Profiad o amrywiaeth eang o ddulliau cyfuno tystiolaeth, gan gynnwys: mapio tystiolaeth, adolygiadau cyflym ac adolygiadau systematig

Llunio polisi o amgylch diogelwch plant yn aros yn yr ysgol ac yn dychwelyd iddi yn ystod y pandemig

Wynebodd plant a phobl ifanc amhariad difrifol ar eu haddysg yn ystod y cyfnodau clo. Roedd amrywiaeth o fesurau wedi'u cyflwyno i mewn i ysgolion a lleoliadau addysg i leihau lleddeniad COVID-19.

Roedd Llywodraeth Cymru eisiau gwybod pa mor effeithiol roedd y mesurau hyn wedi bod a pha fesurau y dylied eu cadw ar waith mewn lleoliadau addysg a gofal plant wrth i'r pandemig barhau. Fis Awst 2021, cynhyrnodd Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus

Cymru adolygiad cyflym yn archwilio "pa mor effeithiol ydy mesurau atal a rheoli haint a ddefnyddir mewn lleoliadau addysg a gofal plant ar gyfer plant"



Darparodd yr adroddiad hwn fframwaith strategol a pholisi gweithredu mewn addysg yng Nghymru, ar gyfer gweithredu ysgolion a lleoliadau addysg yn ddiogel yn ystod y pandemig. Cyfeirwyd ato hefyd mewn adroddiad gan Lywodraeth Cymru (Hydref 2021), gan nodi bod y darganfyddiadau wedi'u defnyddio i ddarparu sail ar gyfer polisi ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol ar gyfer plant ar ôl y cyfnod clo.

Gellir gweld yr adroddiad llawn yma:

<https://ymchwiliachydagofalcymru.org/effeithiolrwydd-mesurau-atal-rheoli-haint-ddefnyddir-mewn-lleoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gyfer>



Uned Arbenigol ar gyfer Tystiolaeth Adolygu (SURE)

Sefydlwyd SURE yn 2000 ac mae ganddo le unigryw yng ngwasanaethau llyfrgell Prifysgol Caerdydd. Mae'r tîm yn cynnwys arbenigwyr gwybodaeth ac adolygwyr systematig profiadol. Maent yn cynnal adolygiadau systematig ac adolygiadau o lenyddiaeth ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, yn ymchwilio i arloesi methodolegol ac yn darparu gwasanaethau ymgynghori a hyfforddi.

Meysydd Arbenigo

- Dylunio a gweithredu chwiliadau uwch
- Profiad o gynnal pob ffurf ar adolygiadau systematig ac adolygiadau o lenyddiaeth
- Cyfuno tystiolaeth, arfarnu beirniadol a defnyddio GRADE
- Defnyddio dull cloddio testun i wneud adolygiadau'n fwy effeithlon

Cefnogi menywod beichiog i wneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â chael eu brechu

Mae pob un o adolygiadau'r WCEC wedi ymateb i gwestiynau COVID-19 a oedd â blaenoriaeth, gan gymryd 2-3 mis i'w cwblhau yn nodweddiadol. O bryd i'w gilydd, gwnaethom dderbyn ceisiadau brys i ddarparu sail ar gyfer polisi a chanllawiau uchel eu blaenoriaeth.

Fis Gorffennaf 2021, ymgymerodd tîm SURE ag un o'r ceisiadau brys hyn o du arweinwyr polisi iechyd cyhoeddus a brechu yn Llywodraeth Cymru, gan archwilio'r dystiolaeth o niwed uniongyrchol o haint a brechlyn COVID-19 mewn menywod beichiog ac ôl-enedigol.

